

## Dangos ymrwymiad i ac ansawdd mewn Ymgysylltu â Thenantiaid

Mae'r sector tai cymdeithasol yn mynd trwy newid ac yn wynebu cyfleoedd a disgwyliadau newydd, gan gynnwys ffocws cynyddol ar ymgysylltu â thenantiaid i sicrhau bod llais tenantiaid yn cael ei glywed. Bydd angen i sefydliadau landlordiaid ddangos eu bod yn bodloni 'Safonau Rheoleiddiol' newydd Llywodraeth Cymru gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag Ymgysylltu effeithiol â Thenantiaid.

Nawr yw'r amser i sicrhau bod dull cynnwys tenantiaid eich sefydliad yn addas at y diben, ei fod yn bodloni safonau rheoleiddio, a'i fod yn esblygu i ddiwallu anghenion newidiol eich tenantiaid, eich cymunedau a chyfleoedd ar-lein newydd.

Mae ein gwasanaeth 'Asesiad Safonau Ymgysylltu â Thenantiaid' newydd wedi'i gynllunio i gefnogi eich sefydliad i asesu eich cynnig cyfranogiad tenantiaid presennol ac, i'ch helpu i ddangos eich bod yn bodloni'r Safonau Rheoleiddiol diweddaraf.

Gallwn hefyd ddarparu amrywiaeth o argymhellion i'ch helpu i archwilio ffyrdd newydd o wneud pethau, gan gynnwys cyfleoedd ymgysylltu digidol a chlywed llais ystod amrywiol o denantiaid.

## Pam ddylai eich sefydliad gymryd y gwasanaeth asesu?

Bydd yr asesiad yn:

- Eich helpu i adolygu eich sefyllfa bresennol o ran cyflawni ymgysylltiad tenantiaid a nodi cyfleoedd i wella.
- Darparu tystiolaeth annibynnol i ddangos eich bod yn bodloni neu'n gweithio tuag at fodloni disgwyliadau a Safonau Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru.
- Helpu i amlygu meysydd o arfer da yn eich sefydliad.
- Dangos eich ymrwymiad i gynnwys tenantiaid.



# Beth fydd y gwasanaeth asesu yn ei ddarparu?

- Adolygiad ac asesiad o ddull eich sefydliad o gynnwys tenantiaid yn erbyn disgwyliadau presennol Llywodraeth Cymru a Safonau Rheoleiddiol
- Asesiad cywir ac annibynnol gennym ni, y sefydliad cyfranogiad tenantiaid a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru.
- Syniadau ac argymhellion yn seiliedig ar arfer da sector y DU i helpu eich sefydliad i ddatblygu a symud ymlaen.

## Beth sydd wedi'i gynnwys?

Gellir teilwra'r dull ymarferol o gynnal y gwasanaeth asesu i'ch anghenion penodol. Fodd bynnag, mae pob asesiad yn cynnwys y canlynol:

- Adolygiad heriol ond adeiladol gan ddefnyddio arbenigedd eang staff TPAS Cymru, nid dim ond un ymgynghorydd.
- Asesiad bwrdd gwaith o dystiolaeth hunanwerthuso a ddarparwyd gennych chi yn erbyn ein meini prawf Safonau Ymgysylltu â Thenantiaid.
- Adolygu ar-lein a gweithdai 'ffrind beirniadol' gyda chydweithwyr – staff a/neu denantiaid
- Adroddiad cryno o'r canfyddiadau.

## Gellir ychwanegu tasgau ychwanegol.

## Pam nawr? – peidiwch ag oedi

1. Mae'r asesiad annibynnol hwn yn dangos i'ch Rheoleiddiwr a'ch Bwrdd/Cabinet eich bod yn mynd ati i asesu eich dull o ymgysylltu â thenantiaid i sicrhau eich bod yn bodloni safonau Llywodraeth Cymru a disgwyliadau eich tenantiaid
2. Cyfle i bwyso a mesur ac ystyried dulliau newydd o ymgysylltu â thenantiaid mor effeithiol â phosibl a sut y gall llais tenantiaid helpu i lunio gwasanaethau a gwerth am arian.
3. Gallai'r asesiad arbed costau, adnoddau ac amser wrth i ni eich helpu i ganolbwyntio ar wneud yr hyn sy'n bwysig.

## Costau?

Mae ein prisiau yn dibynnu ar ofynion penodol eich sefydliad. Rydym yn gweithredu cyfradd ostyngol ar gyfer aelod-sefydliadau felly gwnewch y mwyaf o fod yn aelod.

## Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

David Lloyd, Cyfarwyddwr Rhaglen: [david@tpas.cymru](mailto:david@tpas.cymru)